



Croeso cynnes i e-fwletin Gwyrdd a Diogel Casnewydd!



Darperir y cylchlythyr hwn ichi gan CNC ar ran partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un.



Dwi wedi bod yn cyfarfod â llawer ohonoch chi ar-lein dros y misoedd diwethaf; yn dysgu am eich holl waith gwych sy'n cyfrannu at weledigaeth Werdd a Diogel ar gyfer Casnewydd. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hyd yn oed mwy ohonoch chi yn ystod y misoedd nesaf.

Fel y gwyddom i gyd, mae wedi bod yn flwyddyn anodd ac mae Covid-19 yn parhau i ddod â lefel o ansicrwydd i bopeth a wnawn. Mae'r amgylchedd naturiol wedi cynnig cysur y mae mawr ei angen, ac efallai y gallwn fanteisio ar y ffaith bod mwy o bobl yn sylweddoli gwerth mannau gwyrdd, ar ôl darganfod mannau gwyrdd lleol na wyddent erioed am eu

bodolaeth.

Mae gwirfoddoli, gweithgarwch cymunedol a gwaith ymgysylltu hefyd wedi bod yn anodd eleni. Os oes gennych enghreifftiau o sut y gwnaethoch addasu eich gwaith yn llwyddiannus i ddilyn canllawiau'r llywodraeth, cysylltwch â ni i rannu'ch profiad gyda gweddill y rhwydwaith.

Dwi wrthi'n gweithio ar ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddod â'r rhwydwaith at ei gilydd i gydweithio a rhannu syniadau, megis cynnal arolygon byr o bryd i'w gilydd,

trefnu gweithdai ar-lein, a gobeithio y bydd yr e-fwletin hwn yn cyfrannu at gyfathrebu rheolaidd.

Mae croeso i chi gysylltu a rhoi gwybod i mi os oes gennych chi unrhyw beth yr hoffech ei gynnwys mewn e-fwletinau yn y dyfodol.

Harriet Bleach, Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel

Gweledigaeth Mannau Gwyrdd a Diogel

Datblygwyd thema a gweledigaeth y Mannau Gwyrdd a Diogel drwy Asesiad Lles Casnewydd. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y [Cynllun Llesiant Lleol 2018 – 2023](#).

'Mae Casnewydd yn lle gwyrddach, iachach a mwy diogel lle mae gan bob cymuned fynediad hawdd i fannau gwyrdd o safon ar gyfer iechyd, chwarae a hamdden.'

Byddwn yn awyddus i glywed eich barn am y weledigaeth Werdd a Diogel. A ydych chi'n cytuno bod y weledigaeth yn parhau i amlinellu'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni? Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech gwblhau'r arolwg 2 funud byr hwn [[survey link](#)].

Diolch ymlaen llaw am roi o'ch amser i rannu eich meddyliau.

Y diweddaraf ar brosiectau Gwyrdd a Diogel ledled Casnewydd

Yn ddi-os, mae llawer mwy o brosiectau'n digwydd ledled Casnewydd, a byddwn wrth fy modd yn clywed gennych i'w cynnwys yn yr e-fwletinau sydd ar y gweill. Dyma ddiweddariadau am rai ohonynt yn unig.



Coedwig Barracks

Mae Cymdeithas Dai Pobl, Cyngor Casnewydd, Heddlu Gwent, Cyfoeth Naturiol Cymru, Taclo Tipio Cymru a thrigolion lleol wedi ymuno â'i gilydd mewn prosiect cyffrous i wella ardal Coedwig Barracks.

Mae Cyngor Casnewydd beth o'r ffordd drwy brosiect i wella'r ardal ar gyfer adfer natur. Bydd hyn o fudd i bobl, yn ogystal â natur a bywyd gwylt. Gyda gwelliannau i'r llwybrau troed a

chamau i reoli cadwraeth yn weithredol, bydd mannau gwyrdd naturiol o ansawdd uchel ar gael, sydd yn ei dro yn gwella ac yn cefnogi iechyd a lles pobl leol ac ymwelwyr.

Y llynedd, dechreuodd Grŵp Camlas a Chefn Gwlad Cyngor Casnewydd waredu'r gwastraff a dipiwyd yng anghyfreithlon. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod angen gwneud mwy o waith i'w atal rhag digwydd eto.

Mae pob un o'r sefydliadau wedi cynnal trafodaethau i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu i fynd at wraidd y broblem tipio anghyfreithlon ar y safle. Mae'r camau nesaf yn cynnwys archwilio opsiynau i wella'r gofod gwyrdd ymhellach, fel plannu dôl o flodau gwylt.



Maindee Unlimited – Gwyrddio Maendy

Ymhlith llawer o brosiectau eraill sydd gan Maindee Unlimited ar y gweill, dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am Driongl Maendy ar Heol Cas-gwent.

Mae cyllid bellach wedi'i ddyfarnu ar gyfer y prosiect newydd gwych hwn i drawsnewid tir hen floc toiledau (a oedd yn eiddo i'r cyngor) ar Heol Cas-gwent. Lluniwyd cynigion ar gyfer caffï a gofod

cymunedol bywiog gyda man awyr agored deniadol sy'n cynnwys ardal ar gyfer perfformiadau, wal ddringo, mannau plannu deniadol a seddau. Roedd y safle wedi dadfeilio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi dioddef esgeulustod cyffredinol, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ategir y prosiect gan themâu cryf o ran cynaliadwyedd ac mae'r cynlluniau'n cynnwys gosod system casglu dŵr glaw, lloches beiciau â tho gwyrdd a phlannu gyda pheilliwyr mewn golwg. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn denu ymwelwyr i'r

gymdogaeth ac yn helpu i roi hwb cychwynnol i broses o adfywio'r stryd fawr.
Pethau cyffrous ar y gweill!



Branch Out

Every Thursday
via Zoom
4-5pm

Branch Out **Changing Minds**

Are you aged between 13-25 living in Wales and wanting help and support to stay active outdoors and in nature during the national coronavirus 'firebreak'? Then why not join our weekly Zoom group to meet other like minded young people and help build your own outdoor self care toolkit with different themes, topics and tasks

mind | Newport Casnewydd
The Centre for Mental Health in Newport, Wales
Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Mae Mind Casnewydd yn cynnig cyfle i bobl ifanc yng Nghymru ddod at ei gilydd ar-

lein a meithrin sgiliau gwytnwch drwy drafodaethau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur. Mae hwn yn brosiect newydd a sefydlwyd gan Mind Casnewydd mewn cydweithrediad â Thŷ Tredegar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac sydd wedi'i leoli ar y safle; fe'i hariennir gan y Gronfa Iach ac Egnïol (Chwaraeon Cymru).

Mae Branch Out ar gyfer pobl ifanc 13-25 oed a'i nod yw gwella iechyd a lles meddyliol a chorfforol drwy fwy o gysylltiad â natur, a thrwy gyfrannu at fannau gwyrdd lleol mewn amgylchedd cymdeithasol a chefnogol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: changingminds@newportmind.org neu ffoniwch 01633 258741.

Safle Rhandir Stryd Portland, Pillgwenlli

Mae'r rhandiroedd a oedd wedi tyfu'n wyllt wedi'u clirio erbyn hyn, yn barod ar gyfer newidiadau newydd cyffrous. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ffensys newydd, llwybr hygyrch newydd, cynhwysydd dur fel gofod cymunedol a storfa, a chreu lle amlddefnydd gan gynnwys wyth llain rhandir, cyfleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned, a dysgu yn yr awyr agored.

Mae sawl grŵp wedi cyfrannu at lunio'r prosiect cynhyrfus hwn i drawsnewid y safle'n fan cymunedol ffyniannus, gwyrdd yn yr awyr agored. Cafwyd cefnogaeth barhaus wych gan Yr Hyb Canolog, Pill Unity, Cymdeithasau Tai Lleol (Pobl, Cartrefi Dinas Casnewydd a Cartrefi Melin), Cyfuno: Diwylliant a'r Celfyddydau, Dechrau'n Deg, DP Mowers, Cadwch Gymru'n Daclus, Cymdeithas Gymunedol Yemeniaidd Casnewydd, Exclusive Landscapes, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Siemens a thrigolion lleol. Heb gefnogaeth yr holl bartneriaid hyn ni fyddai'r prosiect hwn yn bosibl. Mae'r cynigion ar gyfer y gofod yn cynnwys:

Canolfan Addysg Gymunedol

Bydd Llain 1 yn gartref i gynhwysydd dur wedi'i droi'n swyddfa/storfa lle gellir darparu achrediad cymunedol fel Hylendid Bwyd Sylfaenol, O'r Plannu i'r Plât a Chymorth Cyntaf. Gellir cynnig cymorth cyflogaeth i breswylwyr drwy fentoriaid Cyflogaeth Cymunedau am Waith, a all hefyd gynnig cyfleoedd gwirfoddoli fel cam tuag at gyflogaeth. Bydd y lle hwn hefyd ar gyfer gweithdai lles, mentora ar gyfer grwpiau iechyd meddwl lleol ac ysgolion cynradd lleol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae lleiniau 3, 5 a 6 ar gyfer trigolion lleol a grwpiau cymunedol, er mwyn tyfu ffrwythau a llysiau.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer murlun o fannau lleol o ddiddordeb ym Mhillgwenlli, a fydd yn cysylltu â chydlynedd treftadaeth ddiwylliannol Cyfuno Casnewydd. Hoffem roi cyfle i Ysgolion Cynradd lleol weithio ar y broses ddylunio.

Gardd Gymunedol

Bydd yr ardd ar leiniau 7 ac 8 yn cael ei defnyddio gan Ysgolion Cynradd Lleol ynghyd â Dechrau'n Deg fel ardal Ysgol Goedwig. Bydd gennym ardd synhwyrdd ar gyfer plant ysgol anabl ynghyd â gwesty pryfed, cafnau wedi'u codi oddi ar y ddaear, ardal blannu ar gyfer grwpiau ysgol, ardal farbeciw gymunedol, cylch boncyffion cysgodol a meinciau i ddefnyddwyr y rhandiroedd fwynhau'r ardd. Rydym wedi llwyddo i wneud cais gyda Cadwch Gymru'n Daclus i ddarparu adnoddau a gwybodaeth arbenigol wrth ddatblygu gofod yr ardd gymunedol hon. Maent hefyd yn darparu cymorth i sefydlu cynaliadwyedd y safle gyda'r nod o sicrhau statws baner werdd.

Ychydig y tu allan i'r ardd gymunedol, bydd chwe choeden afal yn cael eu plannu gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Bydd y berllan hon yn fan tawel gyda meinciau i breswylwyr eistedd a chysylltu â natur. Rydym mewn trafodaethau i gael cofeb o fewn y berllan i gydnabod yr anwyliaid hynny o gymuned Pillgwenlli a gollwyd i COVID-19.

Adroddiad Blynyddol 2019-2020 Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Casnewydd yn Un

Dyma ail Adroddiad Blynyddol [Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd 2018-23](#), yn ymdrin â gwaith y bartneriaeth BGC yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adolygu cynnydd yn erbyn pob un o'r pedwar amcan lles drwy nodi meysydd arferion da.

Gydag effaith Covid-19 a'i effaith ar aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a olygodd y bu rhaid iddynt symud ffocws i ymateb i'r pandemig, cytunodd y BGC i ohirio'r cyhoeddi tan fis Hydref 2020.

Cliciwch ar y naill neu'r llall o'r dolenni canlynol i weld adroddiad 2019-20. Ynddo mae llawer o enghreifftiau'n ymwneud â manau Gwyrdd a Diogel, gan gynnwys: Gardd Gymunedol Lysaght, Gwyrddio Canol y Ddinas, Maindee Unlimited, Dinas sy'n Caru Gwenyn, a Gardd Gymunedol Sant Gwynllyw.

- [Cynllun Llesiant Casnewydd 2018-23 – Adroddiad Blynyddol 2019-20 \(pdf\)](#)
- [Cynllun Llesiant Casnewydd 2018-23 – Adroddiad Blynyddol 2019-20 \(Microsoft Sway\)](#)

Hoffai'r BGC ddiolch i'r partneriaid niferus a dinasyddion unigol sydd wedi gweithio'n galed i wneud ein cynllun yn llwyddiant ac sy'n parhau i wneud hynny, er gwaethaf y cyfnod anodd hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [dudalen adrodd ar berfformiad](#) Cyngor Casnewydd.

Hyrwyddo Adferiad Gwyrdd – Cyfoeth Naturiol Cymru



Er ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd a bod Covid-19 yn parhau i ddod â lefel o ansicrwydd i bopeth a wnawn, mae'r amgylchedd naturiol wedi bod yn ffynhonnell ddiddiwedd o gysur, llonyddwch a sefydlogrwydd drwy gydol yr argyfwng iechyd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i helpu i sicrhau adferiad gwyrdd ond hefyd i gefnogi atebion gyda chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddynt; gan ailadeiladu Gwent sy'n wydn yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Penodwyd Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Syr David Henshaw, i arwain Tasglu Adferiad Gwyrdd Llywodraeth

Cymru, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwreiddio'r meddylfryd hwn yn ei waith fel sefydliad - gan sicrhau bod Cymru yn dod allan o'r cyfnod anodd hwn yn gryfach, yn wyrddach ac yn decach.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymuno â Syr David ar y panel, ynghyd ag uwch gynrychiolwyr o fyd busnes, sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol, y sector ffermio a'r trydydd sector a Llywodraeth Leol, i lywio cynigion hirdymor ar:

- Allyriadau carbon a risg hinsawdd
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Cysylltu pobl a natur drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth [yma](#).

Cyllid

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfleoedd cyllid grant i unigolion a sefydliadau sy'n cyflawni camau gweithredu Gwyrdd a Diogel. Rydym hefyd yn awyddus i gydweithio i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ariannu o ffynonellau eraill, felly siaradwch â ni i gael gwybod mwy.

Cefnogi sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol

Mewn ymateb i'r straen cynyddol ar y sector amgylcheddol yn sgil Covid-19, [mae CNC wedi rhoi cymorth grant](#); gan helpu i sicrhau mynediad diogel i dir sy'n eiddo i gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac sy'n cael ei reoli ganddynt. Trwy'r cynllun hwn, bydd Coed Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, RSPB a Plantlife yn derbyn arian i'w roi tuag at alluogi mynediad diogel i'r cyhoedd i safleoedd natur yn sgil Covid-19 ac i gynnig cyfleoedd i gymunedau gysylltu â safleoedd cadwraeth natur.

Cronfa Gyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Rhaglen gwerth £2.3miliwn, wedi'i hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

- Mae'n cynnig grantiau o £10,000 i £50,000 (yn 2020-21) ar gyfer prosiectau cyfalaf yng Nghymru a fydd yn caffael, adfer a gwella natur.
- Mae prosiectau y gellir eu gweld "o garreg eich drws" o ddiddordeb arbennig, h.y. lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, yn teithio, gan gynnwys lleiniau ymyl y ffordd, cylchfannau a manau agored cyhoeddus.
- Bydd y rhaglen grant yn aros ar agor hyd nes y bydd yr holl gyllid wedi'i ddefnyddio.
- Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Cronfa Grant Coetir Gymunedol y Fforest Genedlaethol

Cynllun grant cyfalaf Coetir Gymunedol gwerth £2.1 miliwn gyda'r bwriad o adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd yng Nghymru; fe'i hariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

- Cynnig grantiau o £10,000 i £250,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf a fydd yn adfer, gwella ac mewn rhai achosion yn caffael tir i greu coetiroedd cymunedol newydd yng Nghymru.
- Mae ceisiadau ar agor tan **21 Hydref 2021**
- Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Beth sydd nesaf ar gyfer Gwyrdd a Diogel?

Yn y gweithdy cyntaf yn 2019 daethom â'n syniadau at ei gilydd i greu Cynnig a Chynllun Gweithredu ar gyfer manau Gwyrdd a Diogel. Rwy'n gobeithio gweithio gyda chi yn awr dros y misoedd nesaf i gymryd eiliad i adnewyddu rhai o'r camau gweithredu - gan sicrhau eu bod yn gyfredol ac ystyried heriau eleni.

Wrth i ni geisio parhau i ehangu'r rhwydwaith ac wrth i bethau aros ar-lein am y tro, mae e-fwletinau rheolaidd, cyfarfodydd rhithwir a gweithdai a chynllun cyfathrebu i gyd ar y gweill. Dwi yma hefyd i helpu i hyrwyddo eich prosiectau unrhyw bryd, felly anfonwch nhw ata' i. Edrychaf ymlaen at ddal i fyny â chi i gyd yn fuan.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Harriet Bleach:

harriet.bleach@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales

[Website](#) | [Contact us](#)



Subscription Management

[Manage my preferences](#) | [Unsubscribe](#) | [Privacy Policy](#) | [Help](#)